Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Cynorthwy-ydd Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd** |
| **Adran/Pwnc:** | **Seicoleg** |
| **Cyflog:** | **Gradd 7: £34,132 i £38,249 y flwyddyn** |
| **Oriau gwaith:** | **0.4 CALl 14 awr yr wythnos** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **Cyfnod penodol o 1 Medi 2026 tan 31 Rhagfyr 2028** |
| **Lleoliad:** | **Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton** |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Bydd y Cynorthwy-ydd Ymchwil yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno prosiect amlddisgyblaethol, a ariennir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a fydd yn archwilio dimensiynau seicolegol ac ymddygiadol ôl-osod bioffilig ac addasu at yr hinsawdd drefol. Gan weithio yn yr Ysgol Seicoleg, bydd deiliad y swydd yn cyfrannu at ddylunio, gweithredu a lledaenu ymchwil sy'n archwilio sut y gall integreiddio natur i amgylcheddau adeiledig gefnogi lles ac ymddygiad cynaliadwy.<br><br>Mae'r rôl yn cynnwys cefnogi gweithgareddau ymchwil dulliau cymysg, gan gynnwys paratoi deunyddiau, casglu a dadansoddi data, a chyfrannu at allbynnau academaidd ac i randdeiliaid. Bydd deiliad y swydd yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr ar draws disgyblaethau (e.e. dylunio, y gyfraith, ecoleg, a'r dyniaethau) ac yn ymgysylltu â phartneriaid allanol, gan gynnwys sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid y diwydiant. Bydd rhan sylweddol o'r rôl yn cynnwys cysylltu â phartneriaid allweddol a thrigolion yr adeilad, casglu data a dadansoddi data drwy lens dull cymysg.<br><br>Bydd deiliad y swydd yn aelod gweithgar o'r Grŵp Ymchwil Lles Cynaliadwy, gan gyfrannu at amgylchedd ymchwil cefnogol a rhyngddisgyblaethol wrth ddatblygu eu sgiliau ymchwil eu hunain. Mae'r rôl yn cynnig cyfle i gyfrannu at ymchwil effeithiol, yn y byd go iawn sy'n mynd i'r afael â chynaliadwyedd trefol, addasu at yr hinsawdd, a lles dynol. |
| **Prif Ddyletswyddau** | 1. Cefnogi dylunio a chyflwyno ymchwil a arweinir gan seicoleg i addasu trefol bioffilig, gan gynnwys offer a dulliau cyd-gynhyrchu gyda phartneriaid cymunedol.<br>2. Cydlynu a chyfrannu at weithgareddau cydweithredol, gan gynnwys cyfarfodydd tîm, lledaenu ar y cyd, a mentrau dysgu traws-brosiect.<br>3. Hwyluso gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau (e.e. gweithdai, cyfweliadau, sesiynau cyd-ddylunio), gan sicrhau cynhwysiant, hygyrchedd, ac integreiddio mewnwelediadau seicolegol.<br>4. Cyfrannu'n rhagweithiol at weithgareddau ymchwil a chynnal y rheini, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, creu syniadau, a chyflwyno canfyddiadau.<br>5. Paratoi adroddiadau a phapurau ymchwil i'w defnyddio'n fewnol a'u cyhoeddi.<br>6. Gweithio'n annibynnol, gan ddefnyddio menter i fynd i'r afael â heriau wrth geisio arweiniad pan fo'n briodol.<br>7. Adeiladu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol a phroffesiynol gyda chydweithwyr yn y Gyfadran, ar draws y Brifysgol, a chyda phartneriaid allanol.<br>8. Cadw ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y maes a'u goblygiadau ehangach i'r ddisgyblaeth a'r cymwysiadau posibl.<br>9. Cyfrannu, pan fo'n briodol, fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau perthnasol.<br>10. Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus, gan nodi anghenion hyfforddi yn unol â'r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae a chymryd rhan mewn gweithgareddau perthnasol (e.e. prawf, adolygiadau o ddatblygiad proffesiynol). |

| | |
|---|---|
| | 11. Cynnal a datblygu cysylltiadau â chyrff proffesiynol a sefydliadau cysylltiedig.<br>12. Cadw at brotocolau arferion gorau ar gyfer rheoli a chadw cofnodion ymchwil, yn unol â chanllawiau'r Brifysgol a'r Cyngor Ymchwil, gan gynnwys trosglwyddo cofnodion prosiect yn amserol gyda'r Prif Ymchwilydd. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 13. Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar y gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>14. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau yn unol â pholisïau'r Brifysgol ar iechyd, diogelwch a chynaliadwyedd, gan leihau risgiau ac effaith amgylcheddol.<br>15. Sicrhau bod rheoli risg wedi'i ymgorffori ym mhob gweithgaredd ac wrth wneud penderfyniadau, yn unol â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>16. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol gan y Prif Ymchwilydd a'r Cyd-arweinydd ar gyfer ffrwd waith seicoleg. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. Gradd israddedig o ansawdd da (dosbarth cyntaf neu 2:1) mewn seicoleg, cymdeithaseg neu faes gwyddonol cysylltiedig agos.<br>2. Profiad o un neu fwy o'r meysydd canlynol, neu dystiolaeth o ddiddordeb: seicoleg amgylcheddol neu hinsawdd; newid ymddygiad mewn cyd-destunau byd go iawn; datblygu cymunedol yn seiliedig ar le neu ymchwil dan arweiniad y gymuned; dulliau ymchwil cyd-gynhyrchu neu gyfranogol.<br>3. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect.<br>4. Dealltwriaeth o addasu at yr hinsawdd, cynaliadwyedd trefol, neu ddylunio bioffilig o safbwynt seicolegol, ymddygiadol neu gymunedol.<br>5. Profiad dangosadwy o ddadansoddi data at ddibenion ymchwil gan gynnwys meddalwedd berthnasol (e.e. ATLAS.ti, NVivo, JASP, SPSS, R).<br>6. Yn gyfarwydd â dulliau cymysg o ddadansoddi ac integreiddio data ansoddol a meintiol, gan gynnwys meddalwedd berthnasol (e.e., MAXQDA).<br>7. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio a threfnu i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect ymchwil cymhleth sy'n cynnwys sawl partner.<br>8. Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu cryf, a'r gallu i weithio ar y cyd mewn timau rhyngddisgyblaethol a thraws-sector.<br>9. Profiad o weithgareddau ymgysylltu â phartneriaid cymunedol (e.e., gweithdai, cyfweliadau, neu sesiynau cyd-ddylunio) neu barodrwydd i gefnogi'r rheini.<br>10. Tystiolaeth o'r gallu i gyfrannu at ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.<br>11. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys bod yn agored i ddysgu o wahanol ddisgyblaethau a safbwyntiau academaidd.<br>12. Y gallu i reoli amser yn effeithiol a gweithio'n annibynnol, wrth gyfrannu'n adeiladol at grŵp ymchwil ehangach neu amgylchedd tîm.<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br>13. Cymhwyster ôl-raddedig sy'n canolbwyntio ar ymchwil (e.e. MSc neu PhD) mewn seicoleg neu faes cysylltiedig. |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | |
|---|---|
| | 14. Profiad o gyfrannu at brosiectau ymchwil rhyngddisgyblaethol neu weithio ar draws sectorau academaidd ac anacademaidd (e.e. gyda sefydliadau cymunedol, llunwyr polisi, neu weithwyr proffesiynol ym maes dylunio).<br>15. Profiad o drefnu neu hwyluso gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, gweithdai, neu gyfranogiad y cyhoedd mewn ymchwil.<br>16. Tystiolaeth o gyfrannu at geisiadau am gyllid, gweithgareddau effaith, neu ledaenu ymchwil y tu hwnt i gyhoeddiadau academaidd (e.e. blogiau, adroddiadau, briffio).<br>17. Ymrwymiad i wyddoniaeth agored, arferion ymchwil cynhwysol, neu arloesi cyfrifol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Lefel 1 – 'ychydig'. Bydd deiliad y rôl yn gallu ynganu geiriau Cymraeg, ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/prynhawn da) a defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol iawn (diolch, os gwelwch yn dda etc.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs sy'n para awr.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Andrew Kemp (a.h.kemp@abertawe.ac.uk ) |

ECU Gender Charter Athena SWAN Silver Award

Stonewall Cymru Diversity Champion

HR Excellence in Research